TGAU

CBAC TGAU
Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Manyleb

Addysgu o 2025
Dyfarnu o fis Tachwedd 2026

Fersiwn 5 - Medi 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) o fis Medi 2025 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif tudalen
2	Eglurhad ynghylch pryd y bydd angen cwmpawdau yn 3.2.2	30
	Ychwanegu gramau – ownsys o ran trawsnewid unedau yn 3.5.7	35
	Terminoleg wedi'i diweddaru	22, 26, 33, 34, 13
2a	Terminoleg wedi'i diweddaru	27, 34, 35
3	Newid i'r rheol derfynol.	58 - 59
4	1.4.3 'trawsnewid rhifau o un ffurf i ffurf arall' wedi'i ychwanegu at Uned 1 ac Uned 3	14
	1.9.7 cynnwys 'defnyddio syrdiau mewn cyfrifiadau union' wedi'i ychwanegu at Uned 2.	20
	Terminoleg wedi'i diweddaru	42
5	Newid i'r rheol derfynol yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr ôl 16	58

© WJEC CBAC Ltd. 2024

CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU 5
1. CYFLWYNIAD 7
1.1 Nodau 7
1.2 Cwricwlwm i Gymru 7
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant 8
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad 8
1.5 Defnyddio iaith 9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg 9
2 CYNNWYS Y PWNC 10
Uned 1 10
Uned 2 10
Uned 3 10
Meysydd cynnwys 11
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu 48
3 ASESU 49
3.1 Amcanion asesu a phwysoli 49
Cwestiynau a osodir mewn cyd-destun 51
Trefnu, cyfathrebu ac ysgrifennu'n fanwl gywir 51
Defnyddio cyfrifianellau 52
Rhestrau fformiwlâu 52
4 CAMYMDDWYN 57
5 GWYBODAETH DECHNEGOL 58
5.1 Cofrestru a dyfarnu 58
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl 59
5.3 Haenu 59
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru 61

© WJEC CBAC Ltd. 2024

TGAU MATHEMATEG A RHIFEDD (DWYRADD)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd **Arholiad ysgrifenedig** **Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)** **Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)** **30% o'r cymhwyster**
Bydd y papur ysgrifenedig ar gyfer pob haen yn cynnwys nifer o gwestiynau byr a hirach, strwythuredig ac anstrwythuredig. Gellir gosod y cwestiynau hyn ynglŷn ag unrhyw ran o'r cynnwys pwnc sydd wedi'i neilltuo i'r uned hon. Bydd cwestiynau'n cael eu gosod mewn cyd-destunau personol a rhai byd go iawn eraill. Caniateir cyfrifiannell yn y papur hwn.
Uned 2: Heb gyfrifiannell **Arholiad ysgrifenedig** **Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)** **Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)** **30% o'r cymhwyster**
Bydd y papur ysgrifenedig ar gyfer pob haen yn cynnwys nifer o gwestiynau byr a hirach, strwythuredig ac anstrwythuredig. Gellir gosod y cwestiynau hyn ynglŷn ag unrhyw ran o'r cynnwys pwnc sydd wedi'i neilltuo i'r uned hon. Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau heb gyd-destun a chwestiynau wedi'u gosod mewn cyd-destunau mathemategol a chyd-destunau eraill. **Ni** chaniateir cyfrifiannell yn y papur hwn.
Uned 3: Caniateir cyfrifiannell **Arholiad ysgrifenedig** **Haen Uwch: 2 awr (90 marc)** **Haen Sylfaenol: 1 awr 45 munud (75 marc)** **40% o'r cymhwyster**
Bydd y papur ysgrifenedig ar gyfer pob haen yn cynnwys nifer o gwestiynau byr a hirach, strwythuredig ac anstrwythuredig, sy'n gallu cael eu gosod ar unrhyw ran o'r cynnwys pwnc sydd wedi'i neilltuo i'r uned hon. Bydd y papur yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau wedi'u gosod mewn cyd-destunau byd go iawn a chyd-destunau eraill, a chwestiynau heb gyd-destun. Caniateir cyfrifiannell yn y papur hwn.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae dwy haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:
Haen Uwch: A* – D
Haen Sylfaenol: C – G
Gellir cofrestru dysgwyr ar haenau gwahanol ar draws unedau.

Nid yw trefn gyflwyno'r unedau yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2026 ac yna byddant ar gael yng nghyfres Tachwedd a chyfres yr haf bob blwyddyn.

Bydd Uned 3 ar gael am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026 ac yna bydd ar gael yng nghyfres Tachwedd a chyfres yr haf bob blwyddyn.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4968/0

© WJEC CBAC Ltd. 2024

TGAU MATHEMATEG A RHIFEDD (DWYRADD)

1. CYFLWYNIAD

1.1 Nodau

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) yn cefnogi dysgwyr i:

- wneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd mathemateg a meysydd eraill o'r cwricwlwm
- datblygu eu dealltwriaeth gysyniadol wrth esbonio, mynegi a chynrychioli cysyniadau mewn ffurfiau diriaethol a haniaethol
- cyfleu sefyllfaoedd haniaethol a senarios byd go iawn gan ddefnyddio symbolau a mynegiadau mathemategol
- datblygu eu gallu i ddefnyddio ffeithiau, technegau a pherthnasoedd mathemategol yn rhugl i ddatrys problemau
- adnabod strwythurau mathemategol sylfaenol o fewn problemau a datblygu strategaethau i'w datrys
- datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng cysyniadau mathemategol a'r defnydd o gyfiawnhad a phrofion
- sicrhau sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i'w paratoi ar gyfer bywyd a gwaith
- datblygu hyder wrth ddefnyddio a chymhwyso technoleg ddigidol i helpu i ddatrys problemau mathemategol ac ystadegol.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd yn ogystal â chyfleoedd i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 48; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) yn cael ei lunio ar sail y pum hyfedredd rhyngddibynnol sy'n ffurfio egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r Maes Mathemateg a Rhifedd. Y rhain yw:

- dealltwriaeth gysyniadol
- cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
- rhwyddineb
- rhesymu rhesymegol
- cymhwysedd strategol.

Mae cynnwys y cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) yn seiliedig ar y cysyniadau mathemategol a rhifiadol canlynol sy'n ffurfio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y Maes Mathemateg a Rhifedd:

- rhif
- algebra
- geometreg a mesurau
- ystadegaeth a thebygolrwydd.

Mae agweddau ar bob cysyniad yn cael eu harchwilio ym mhob un o unedau'r cymhwyster, gan gefnogi'r datganiad 'mae gwahanol feysydd mathemateg yn hynod o ryng-gysylltiedig a dibynnol ar ei gilydd' sydd wedi'i gynnwys yn yr ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn.

Yn ogystal, mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys datblygu llythrennedd ariannol dysgwyr er mwyn cefnogi eu llesiant.

1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Mathemateg naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) i'w gyflwyno dros gyfnod o 240 – 280 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchodedig penodol yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (http://www.jcq.org.uk/).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

2 CYNNWYS Y PWNC

Uned 1

Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd
Arholiad ysgrifenedig
Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)
Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)
30% o'r cymhwyster

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o destunau a chysyniadau sy'n ymwneud â chyllid a datblygu eu llythrennedd ariannol
- caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth ac i gymhwyso dulliau mathemategol at gyd-destunau personol a chyd-destunau eraill o'r byd go iawn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arian a'r gweithle.

Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Uned 2

Heb gyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig
Haen Uwch: 1 awr 45 munud (80 marc)
Haen Sylfaenol: 1 awr 30 munud (65 marc)
30% o'r cymhwyster

Pwrpas yr uned hon yw archwilio testunau a chysyniadau mathemategol nad oes angen defnyddio cyfrifiannell ar eu cyfer.

Mae'r uned hon yn cynnwys pob agwedd ar debygolrwydd ac mae'n canolbwyntio'n sylweddol ar geometreg.

Ni chaniateir cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Uned 3

Caniateir cyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig
Haen Uwch: 2 awr (90 marc)
Haen Sylfaenol: 1 awr 45 munud (75 marc)
40% o'r cymhwyster

Pwrpas yr uned hon yw archwilio testunau a chysyniadau:

- y mae'n fwyaf priodol eu hasesu gyda chyfrifiannell, neu
- sy'n ffurfio sylfeini ar gyfer testunau y mae'n fwyaf priodol eu hasesu gyda chyfrifiannell, neu sy'n cysylltu â nhw.

Mae'r uned hon yn cynnwys y mwyafrif o destunau sy'n ymdrin ag agweddau ar drin data ystadegaeth ac mae ganddi ffocws sylweddol ar fesurau.

Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Meysydd cynnwys

Mae cynnwys yr haen sylfaenol mewn testun arferol.
Mae cynnwys yr haen uwch, sy'n ychwanegol i gynnwys yr haen sylfaenol, mewn testun **trwm**.

1. Rhif
Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol: 1.1 Rhif a thalgrynnu 1.2 Priodweddau rhif gan gynnwys dadelfennu ffactor cysefin 1.3 Rheolau indecsau gan gynnwys ffurfiau safonol 1.4 Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymarebau 1.5 Hyfedredd mewn cyfrifiadau 1.6 Terfynau manwl gywirdeb 1.7 Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth 1.8 Menter a chyllid personol/cartref 1.9 Rhifau cymarebol ac anghymarebol

Adran rhif	**Ymhelaethiad**		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
1.1 Rhif a thalgrynnu	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.1.1. darllen ac ysgrifennu rhifau cyfan o unrhyw faint wedi'u mynegi mewn ffigurau neu eiriau 1.1.2 talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100, 1000, ac ati agosaf 1.1.3 deall gwerth lle rhifau cyfan a'r rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol 1.1.4 talgrynnu degolion i'r rhif cyfan agosaf neu i nifer penodol o leoedd degol	1.1.1. darllen ac ysgrifennu rhifau cyfan o unrhyw faint wedi'u mynegi mewn ffigurau neu eiriau 1.1.2 talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100, 1000, ac ati agosaf 1.1.3 deall gwerth lle rhifau cyfan a'r rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol 1.1.4 talgrynnu degolion i'r rhif cyfan agosaf neu i nifer penodol o leoedd degol	1.1.1 darllen ac ysgrifennu rhifau cyfan o unrhyw faint wedi'u mynegi mewn ffigurau neu eiriau 1.1.2 talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100, 1000, ac ati agosaf 1.1.3 deall gwerth lle rhifau cyfan a'r rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol 1.1.4 talgrynnu degolion i'r rhif cyfan agosaf neu i nifer penodol o leoedd degol

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	1.1.5 talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrlon 1.1.6 deall, defnyddio a threfnu rhifau cyfeiriol 1.1.7 penderfynu a ddylid talgrynnu i fyny neu i lawr, fel y bo'n briodol, mewn problem	1.1.5 talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrlon 1.1.6 deall, defnyddio a threfnu rhifau cyfeiriol	1.1.5 talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrlon 1.1.6 deall, defnyddio a threfnu rhifau cyfeiriol 1.1.7 penderfynu a ddylid talgrynnu i fyny neu i lawr, fel y bo'n briodol, mewn problem
	1.1.8 gwirio dulliau a datrysiadau gan ddefnyddio strategaethau priodol	1.1.8 gwirio dulliau a datrysiadau gan ddefnyddio strategaethau priodol 1.1.9 amcangyfrif datrysiadau i gyfrifiadau rhifiadol drwy frasamcanu'r rhifau yn y cyfrifiadau	1.1.8 gwirio dulliau a datrysiadau gan ddefnyddio strategaethau priodol
1.2 Priodweddau rhif gan gynnwys dadelfennu ffactor cysefin	Dylai dysgwyr wybod:		
	1.2.1 priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys odrifau, eilrifau, lluosrifau, ffactorau, rhifau cysefin 1.2.2 ystyr y termau rhif wedi'i sgwario, ail isradd, rhif ciwb a thrydydd isradd	1.2.1 priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys odrifau, eilrifau, lluosrifau, ffactorau, rhifau cysefin 1.2.2 ystyr y termau rhif wedi'i sgwario, ail isradd, rhif ciwb, a thrydydd isradd 1.2.3 ystyr y term cilydd	1.2.1 priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys odrifau, eilrifau, lluosrifau, ffactorau, rhifau cysefin 1.2.2 ystyr y termau rhif wedi'i sgwario, ail isradd, rhif ciwb a thrydydd isradd 1.2.3 ystyr y term cilydd

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		1.2.4 mynegi rhifau fel lluoswm eu ffactorau cysefin ar ffurf indecs 1.2.5 dod o hyd i'r lluosrif cyffredin lleiaf a'r ffactor cyffredin mwyaf gan ddefnyddio dadelfennu ffactor cysefin neu ddulliau priodol eraill 1.2.6 defnyddio dadelfennu ffactor cysefin i helpu i ddatrys problemau rhifiadol eraill, gan gynnwys cysylltiadau â rhifau sgwâr	
1.3 Rheolau indecsau gan gynnwys ffurfiau safonol	Dylai dysgwyr wybod:		
	1.3.1 y nodiant indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif 1.3.2 **y nodiant indecs ar gyfer indecsau sero ac indecsau negatif**	1.3.1 y nodiant indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif 1.3.2 **y nodiant indecs ar gyfer indecsau sero ac indecsau negatif**	1.3.1 y nodiant indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif 1.3.2 **y nodiant indecs ar gyfer indecsau sero ac indecsau negatif**
		1.3.3 **y nodiant ar gyfer indecsau ffracsiynol**	
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		1.3.4 defnyddio rheolau indecsau i gyflawni cyfrifiadau gyda rhifau sy'n cael eu hysgrifennu ar ffurf indecs ar gyfer indecsau cyfanrifol positif	

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
		1.3.5 **defnyddio rheolau indecsau i gyflawni cyfrifiadau gyda rhifau sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf indecs ar gyfer indecsau positif, negatif a ffracsiynol**	
	1.3.6 **trawsnewid rhifau cyffredin i ac o ffurf safonol** 1.3.7 **defnyddio rhifau sydd wedi'u hysgrifennu yn y ffurf safonol**	1.3.6 **trawsnewid rhifau cyffredin i ac o ffurf safonol** 1.3.7 **defnyddio rhifau sydd wedi'u hysgrifennu yn y ffurf safonol**	1.3.6 **trawsnewid rhifau cyffredin i ac o ffurf safonol** 1.3.7 **defnyddio rhifau sydd wedi'u hysgrifennu yn y ffurf safonol**
1.4 Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymarebau	Dylai dysgwyr wybod:		
	1.4.1 sut i ddod o hyd i ffracsiynau cywerth 1.4.2 y cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau	1.4.1 sut i ddod o hyd i ffracsiynau cywerth 1.4.2 y cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau	1.4.1 sut i ddod o hyd i ffracsiynau cywerth 1.4.2 y cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.4.3 trawsnewid rhifau o un ffurf i ffurf arall	1.4.3 trawsnewid rhifau o un ffurf i ffurf arall 1.4.4 trefnu a chymharu rhifau cyfan, degolion, ffracsiynau a chanrannau	1.4.3 trawsnewid rhifau o un ffurf i ffurf arall
	1.4.5 symleiddio ffracsiynau 1.4.6 mynegi un rhif fel ffracsiwn neu ganran o rif arall 1.4.7 darganfod ffracsiwn neu ganran o swm penodol	1.4.5 symleiddio ffracsiynau 1.4.6 mynegi un rhif fel ffracsiwn neu ganran o rif arall 1.4.7 darganfod ffracsiwn neu ganran o swm penodol	1.4.5 symleiddio ffracsiynau 1.4.6 mynegi un rhif fel ffracsiwn neu ganran o rif arall 1.4.7 darganfod ffracsiwn neu ganran o swm penodol

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	1.4.8 cyfrifo newidiadau ffracsiynol a chanrannol (cynnydd a gostyngiad) 1.4.9 deall a defnyddio lluosyddion		1.4.8 cyfrifo newidiadau ffracsiynol a chanrannol (cynnydd a gostyngiad) 1.4.9 deall a defnyddio lluosyddion
	1.4.10 datrys problemau gyda newidiadau cyfraneddol sy'n cael eu hailadrodd 1.4.11 cyfrifo gan ddefnyddio cymarebau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd 1.4.12 **datrys problemau rhifiadol sy'n ymwneud â chyfrannedd union a chyfrannedd gwrthdro** 1.4.13 **darganfod y maint gwreiddiol o wybod canlyniad newid cyfraneddol**		
1.5 Hyfedredd mewn cyfrifiadau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.5.1 deall a defnyddio gweithrediadau rhif a'r perthnasoedd rhyngddynt, gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro a hierarchaeth gweithrediadau 1.5.2 adio, tynnu, lluosi a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys rhifau cyfan mawr 1.5.3 adio, tynnu, lluosi a rhannu degolion, ffracsiynau a rhifau negatif	1.5.1 deall a defnyddio gweithrediadau rhif a'r perthnasoedd rhyngddynt, gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro a hierarchaeth gweithrediadau 1.5.2 adio, tynnu, lluosi a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys rhifau cyfan mawr 1.5.3 adio, tynnu, lluosi a rhannu degolion, ffracsiynau a rhifau negatif 1.5.4 deall a defnyddio gweithrediadau a ysgrifennwyd fel peiriannau rhif	1.5.1 deall a defnyddio gweithrediadau rhif a'r perthnasoedd rhyngddynt, gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro a hierarchaeth gweithrediadau 1.5.2 adio, tynnu, lluosi a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys rhifau cyfan mawr 1.5.3 adio, tynnu, lluosi a rhannu degolion, ffracsiynau a rhifau negatif

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	1.5.5 defnyddio cyfrifiannell yn effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys: • trefn gweithrediadau • adio, tynnu, lluosi a rhannu • sgwario, ciwb a phwerau eraill • ail isradd a thrydydd isradd • cromfachau • ffwythiannau priodol eraill • **ffurf safonol**		1.5.5 defnyddio cyfrifiannell yn effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys: • trefn gweithrediadau • adio, tynnu, lluosi a rhannu • sgwario, ciwb a phwerau eraill • ail isradd a thrydydd isradd • cromfachau • ffwythiannau priodol eraill • **ffurf safonol**
			1.5.6 **defnyddio'r ffwythiannau trigonometrig ar gyfrifiannell yn effeithlon ac yn effeithiol**
1.6 Terfynau manwl gywirdeb	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.6.1 talgrynnu ateb i lefel resymol o fanwl gywirdeb ac ystyried y cyd-destun 1.6.2 gwybod mai ffigur bras yw mesuriad ac y gall fod cyfeiliornad o hanner uned mewn mesuriad sydd wedi'i fynegi i uned benodol 1.6.3 **pennu arffiniau isaf ac uchaf rhifau sydd wedi'u mynegi i lefel benodol o fanwl gywirdeb**		1.6.1 talgrynnu ateb i lefel resymol o fanwl gywirdeb ac ystyried y cyd-destun

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	1.6.4 **cyfrifo arffiniau isaf ac uchaf wrth adio, tynnu, lluosi a rhannu rhifau sydd wedi'u mynegi i lefel benodol o fanwl gywirdeb**		
	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:		
	1.6.5 gall talgrynnu cynamserol mewn problemau sy'n cynnwys sawl cam effeithio ar fanwl gywirdeb yr ateb terfynol		1.6.5 gall talgrynnu cynamserol mewn problemau sy'n cynnwys sawl cam effeithio ar fanwl gywirdeb yr ateb terfynol
1.7 Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.7.1 dehongli a defnyddio gwybodaeth fathemategol sydd wedi'i chyflwyno ar ffurf ysgrifenedig neu weledol, gan gynnwys ffeithluniau, amserlenni (*schedules*), tablau, amserlenni (*timetables*), calendrau a siartiau 1.7.2 creu cynlluniau ac amserlenni		
	1.7.3 defnyddio, dehongli a chynhyrchu diagramau Venn	1.7.3 defnyddio, dehongli a chynhyrchu diagramau Venn	

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
1.8 Menter a chyllid personol/cartref	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	1.8.1 gwneud cyfrifiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth am arian; punnoedd (£) a cheiniogau	1.8.1 gwneud cyfrifiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth am arian; punnoedd (£) a cheiniogau	1.8.1 gwneud cyfrifiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth am arian; punnoedd (£) a cheiniogau
	1.8.2 deall egwyddorion sylfaenol menter a chyllid personol/cartref er mwyn datrys problemau sy'n ymwneud ag, er enghraifft: • taliadau gweithio a chyflogau, gan gynnwys slipiau cyflog • trethiant, gan gynnwys treth incwm ac Yswiriant Gwladol • cynilion a buddsoddiadau • benthyciadau/ad-daliadau • morgeisi • arbrisiant/dibrisiant • cyllidebu • cyfriflenni banc • biliau cyfleustodau • biliau ffôn symudol a biliau eraill • TAW • bargeinion gorau • cymharu prisiau • cynlluniau ariannu, gan gynnwys prynu fesul rhandal • disgownt/cynnydd mewn pris • prynu a gwerthu • elw a cholled • teithio gan gynnwys arian cyfred tramor, cyfraddau cyfnewid a chomisiwn		

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	1.8.3 deall y gwahaniaeth rhwng llog syml ac adlog a gallu gwneud cyfrifiadau gyda'r ddau, gan ddefnyddio dulliau cyfrifo effeithlon a gan gynnwys defnyddio lluosyddion 1.8.4 **cyflawni cyfrifiadau sy'n cynnwys cyfraddau lluosog** 1.8.5 **cyfrifo, defnyddio a chymhwyso Cyfradd Gyfwerth Flynyddol (*AER*) wrth gymharu cynhyrchion ariannol** 1.8.6 **cyfrifo, defnyddio a chymhwyso Cyfradd Ganrannol Flynyddol (*APR*) wrth gymharu cynhyrchion ariannol, gan gynnwys morgeisi**		
1.9 Rhifau cymarebol ac anghymarebol	Dylai dysgwyr wybod:		
		1.9.1 bod degolion cylchol yn ffracsiynau union, a bod rhai ffracsiynau union yn ddegolion cylchol	

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran rhif	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		1.9.2 **trawsnewid degolion cylchol i ffurf ffracsiynol** 1.9.3 **gwahaniaethu rhwng rhifau cymarebol ac anghymarebol**	
		1.9.4 **trin a symleiddio mynegiadau rhifiadol sy'n cynnwys syrdiau** 1.9.5 **trin a symleiddio mynegiannau rhifiadol mwy cymhleth sy'n cynnwys syrdiau, gan gynnwys lluosi mynegiadau sy'n cynnwys syrdiau a symleiddio ffracsiynau sy'n cynnwys syrdiau drwy rannu ffactorau cyffredin**	1.9.4 **trin a symleiddio mynegiadau rhifiadol sy'n cynnwys syrdiau**
	1.9.6 **defnyddio pi mewn cyfrifiadau union**		1.9.6 **defnyddio pi mewn cyfrifiadau union**
		1.9.7 **defnyddio syrdiau mewn cyfrifiadau union**	1.9.7 **defnyddio syrdiau mewn cyfrifiadau union**

© WJEC CBAC Ltd. 2024

2. Algebra

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

2.1 Confensiynau algebraidd a thrin mynegiadau a fformiwlâu
2.2 Hafaliadau ac anhafaleddau – dull algebraidd
2.3 Dilyniannau
2.4 Cyfesurynnau, graffiau llinol ac aflinol
2.5 Graffiau bywyd go iawn

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
2.1 Confensiynau algebraidd a thrin mynegiadau a fformiwlâu	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	2.1.1 deall confensiynau sylfaenol algebra 2.1.2 amnewid rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion positif a negatif mewn fformiwlâu a mynegiadau syml wedi'u hysgrifennu mewn geiriau neu symbolau 2.1.3 adnabod diffiniadau'r termau hafaliad, mynegiad a fformiwla a gallu gwahaniaethu rhyngddynt	2.1.1 deall confensiynau sylfaenol algebra 2.1.2 amnewid rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion positif a negatif mewn fformiwlâu a mynegiadau syml wedi'u hysgrifennu mewn geiriau neu symbolau 2.1.3 adnabod diffiniadau'r termau hafaliad, mynegiad a fformiwla a gallu gwahaniaethu rhyngddynt 2.1.4 **adnabod diffiniad y term unfathiant a gallu gwahaniaethu rhwng unfathiannau, hafaliadau, mynegiadau a fformiwlâu**	2.1.1 deall confensiynau sylfaenol algebra 2.1.2 amnewid rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion positif a negatif mewn fformiwlâu a mynegiadau syml wedi'u hysgrifennu mewn geiriau neu symbolau 2.1.3 adnabod diffiniadau'r termau hafaliad, mynegiad a fformiwla a gallu gwahaniaethu rhyngddynt 2.1.4 **adnabod diffiniad y term unfathiant a gallu gwahaniaethu rhwng unfathiannau, hafaliadau, mynegiadau a fformiwlâu**

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	2.1.5 llunio a symleiddio mynegiadau 2.1.6 casglu termau tebyg 2.1.7 ehangu mynegiadau – un set o gromfachau	2.1.5 llunio a symleiddio mynegiadau 2.1.6 casglu termau tebyg 2.1.7 ehangu mynegiadau – un set o gromfachau 2.1.8 lluosi a rhannu termau drwy gymhwyso rheolau indecsau 2.1.9 symleiddio ffracsiynau algebraidd, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda thermau sy'n gysonion fel enwaduron 2.1.10 **symleiddio ffracsiynau algebraidd mwy cymhleth, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda mynegiadau llinol fel enwaduron** 2.1.11 **ehangu dau fynegiad llinol mewn un neu ddau newidyn** 2.1.12 **ehangu dau fynegiad mewn un newidyn, lle mae'r naill yn llinol a'r llall yn gwadratig**	2.1.5 llunio a symleiddio mynegiadau 2.1.6 casglu termau tebyg 2.1.7 ehangu mynegiadau – un set o gromfachau 2.1.8 lluosi a rhannu termau drwy gymhwyso rheolau indecsau 2.1.9 symleiddio ffracsiynau algebraidd, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda thermau sy'n gysonion fel enwaduron 2.1.10 **symleiddio ffracsiynau algebraidd mwy cymhleth, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda mynegiadau llinol fel enwaduron** 2.1.11 **ehangu dau fynegiad llinol mewn un neu ddau newidyn** 2.1.12 **ehangu dau fynegiad mewn un newidyn, lle mae'r naill yn llinol a'r llall yn gwadratig**
		2.1.13 ffactorio mynegiadau llinol neu gwadratig sydd ag o leiaf un ffactor cyffredin 2.1.14 **ffactorio mynegiadau mwy cymhleth drwy echdynnu ffactorau cyffredin**	

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
		2.1.15 **ffactorio mynegiadau cwadratig yn y ffurf x^2+ ax + b a ax^2 + bx + c, gan gynnwys gwahaniaeth dau sgwâr** 2.1.16 newid testun fformiwla pan fo'r testun yn ymddangos mewn un term 2.1.17 **newid testun fformiwla pan fo'r testun yn ymddangos mewn mwy nag un term**	
2.2 Hafaliadau ac anhafaleddau – dulliau algebraidd	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	2.2.1 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol a syml eraill gyda chyfernodau rhifau cyfan a ffracsiynol	2.2.1 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol a syml eraill gyda chyfernodau rhifau cyfan a ffracsiynol 2.2.2 **llunio, trin a datrys hafaliadau llinol mwy cymhleth, gan gynnwys hafaliadau gyda mwy nag un term ffracsiynol** 2.2.3 llunio, trin a datrys anhafaleddau llinol syml gyda chyfernodau rhif cyfan a ffracsiynol 2.2.4 **llunio, trin a datrys anhafaleddau llinol lle mae'r newidyn yn ymddangos ar ddwy ochr yr anhafaledd neu lle mae dau anhafaledd ar wahân yn cael eu hysgrifennu fel anhafaledd dwbl**	2.2.1 llunio, trin a datrys hafaliadau llinol a syml eraill gyda chyfernodau rhifau cyfan a ffracsiynol 2.2.2 **llunio, trin a datrys hafaliadau llinol mwy cymhleth, gan gynnwys hafaliadau gyda mwy nag un term ffracsiynol**

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
		2.2.5 **Ilunio, trin a datrys, drwy ddefnyddio ffactorio, hafaliadau cwadratig yn y ffurf $x^2 + bx + c = 0$ neu $ax^2 + bx + c = 0$**	
		2.2.6 **Ilunio, trin a datrys dau hafaliad cydamserol llinol gyda chyfernodau rhif cyfan drwy ddulliau algebraidd**	
		2.2.7 **datrys hafaliadau sy'n cynnwys ffracsiynau ag enwaduron llinol yn arwain at hafaliadau cwadratig neu linol**	2.2.7 **datrys hafaliadau sy'n cynnwys ffracsiynau ag enwaduron llinol yn arwain at hafaliadau cwadratig neu linol** 2.2.8 **Ilunio, trin a datrys, drwy ddefnyddio fformiwla, hafaliadau cwadratig yn y ffurf $x^2 + bx + c = 0$, neu $ax^2 + bx + c = 0$** 2.2.9 datrys amrywiaeth o hafaliadau ciwbig drwy ddulliau cynnig a gwella, gan gyfiawnhau cywirdeb y datrysiad 2.2.10 **Ilunio a defnyddio hafaliadau sy'n disgrifio cyfrannedd union a chyfrannedd gwrthdro**

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
2.3 Dilyniannau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		2.3.1 adnabod, disgrifio a pharhau patrymau rhif 2.3.2 disgrifio, mewn geiriau a symbolau, y rheol ar gyfer y term nesaf mewn dilyniant 2.3.3 cynhyrchu dilyniannau llinol ac aflinol o ystyried rheol yr *n*fed term 2.3.4 darganfod yr *n*fed term mewn dilyniant, sydd wedi'i roi yn rhifiadol neu'n ddiagramatig, lle mae'r rheol yn llinol 2.3.5 **darganfod yr *n*fed term mewn dilyniant, sydd wedi'i roi yn rhifiadol neu'n ddiagramatig, lle mae'r rheol yn gwadratig**	
2.4 Cyfesurynnau, graffiau llinol ac aflinol	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
		2.4.1 defnyddio cyfesurynnau mewn 4 pedrant 2.4.2 lluniadu, dehongli, adnabod a braslunio graffiau $x = a$, $y = b$, $y = ax + b$ 2.4.3 adnabod a defnyddio'r ffurf $y = mx + c$ i gynrychioli llinell syth lle mai m yw graddiant y llinell, a c yw gwerth rhyngdoriad y 2.4.4 lluniadu a dehongli graffiau cwadratig yn y ffurf $y = ax^2 + bx + c$, a lluniadu'r llinell $y = k$ er mwyn datrys $ax^2 + bx + c = k$	

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
		2.4.5 **defnyddio graffiau llinell syth i leoli rhanbarthau a roddir gan anhafaleddau** 2.4.6 **nodi hafaliadau llinellau sy'n baralel neu'n berpendicwlar i linell benodol** 2.4.7 **llunio, trin a datrys dau hafaliad cydamserol llinol gyda chyfernodau rhif cyfan drwy ddulliau graffigol** 2.4.8 **lluniadu, dehongli, adnabod a braslunio graffiau** $y = ax^2 + b$, $y = (ax + b)(cx + d)$, $y = a/x$, $y = ax^3$ 2.4.9 **lluniadu a dehongli graffiau** $y = ax^3 + b$ **ac** $y = ax^3 + bx^2 + cx + d$ 2.4.10 **defnyddio dull graffigol i ddatrys** $ax^2 + bx + c = dx + e$ **ac** $ax^3 + bx^2 + cx + d = ex + f$ 2.4.11 **lluniadu a dehongli graffiau pan roddir y ymhlyg yn nhermau x**	

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran algebra	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
2.5 Graffiau bywyd go iawn	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	2.5.1 Iluniadu a dehongli'r graffiau canlynol: • Graffiau trawsnewid • Graffiau teithio • Graffiau eraill sy'n disgrifio sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn. 2.5.2 dehongli cynrychioliadau graffigol sy'n cael eu defnyddio yn y cyfryngau, gan gydnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol		
			2.5.3 Ilunio a defnyddio tangiadau i gromliniau i amcangyfrif cyfraddau newid ar gyfer ffwythiannau aflinol, a defnyddio mesurau cyfansawdd priodol i fynegi'r canlyniadau, gan gynnwys darganfod y felosedd mewn graffiau pellter-amser a chyflymiad mewn graffiau felosedd-amser **2.5.4 dehongli ystyr yr arwynebedd o dan graff, gan gynnwys yr arwynebedd o dan graff felosedd-amser a graffiau mewn cyd-destunau ymarferol eraill** **2.5.5 defnyddio'r rheol trapesiwm i amcangyfrif yr arwynebedd o dan gromlin**

© WJEC CBAC Ltd. 2024

3. Geometreg a mesurau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

3.1 Termau geometrig, geirfa a phriodweddau siâp
3.2 Defnyddio offer mathemategol ar gyfer mesur a lluniadu'n fanwl gywir
3.3 Mapiau, lluniadau wrth raddfa, cyfeiriannau a chynrychioliadau 2 ddimensiwn o siapiau 3 dimensiwn
3.4 Ffeithiau am onglau
3.5 Unedau a mesur
3.6 Perimedr, arwynebedd a chyfaint
3.7 Theorem Pythagoras a thrigonometreg
3.8 Lleoliad, cymesuredd a thrawsnewidiadau
3.9 Siapiau cyflun a chyfathiant

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
3.1 Termau geometrig, geirfa a phriodweddau siâp	Dylai dysgwyr wybod y priodweddau hanfodol, yr eirfa a'r termau geometrig canlynol:		
	3.1.1 Termau geometrig, gan gynnwys: • pwynt, llinell a phlân • llorweddol, fertigol, croeslin • canolbwynt • paralel a pherpendicwlar • troadau clocwedd a gwrthglocwedd • onglau llym, aflym, atblyg, onglau sgwâr, onglausyth, tro llawn • onglau allanol, mewnol • wynebau, ymylon a fertigau	3.1.1 Termau geometrig, gan gynnwys: • pwynt, llinell a phlân • llorweddol, fertigol, croeslin • canolbwynt • paralel a pherpendicwlar • troadau clocwedd a gwrthglocwedd • onglau llym, aflym, atblyg, onglau sgwâr, onglau syth, tro llawn • onglau allanol, mewnol • wynebau, ymylon a fertigau	3.1.1 Termau geometrig, gan gynnwys: • pwynt, llinell a phlân • llorweddol, fertigol, croeslin • canolbwynt • paralel a pherpendicwlar • troadau clocwedd a gwrthglocwedd • onglau llym, aflym, atblyg, onglau sgwâr, onglau syth, tro llawn • onglau allanol, mewnol • wynebau, ymylon a fertigau

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
	3.1.2 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 2 ddimensiwn, gan gynnwys: • trionglau – anghyfochrog, isosgeles, hafalochrog, ongl sgwâr • pedrochrau – sgwâr, petryal, paralelogram, rhombws, barcud, trapesiwm • polygonau – gan gynnwys pentagon, hecsagon, octagon, rheolaidd ac afreolaidd • cylchoedd – radiws, diamedr, tangiad, cylchedd, cylchyn, cord, arc, sector, segment.	3.1.2 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 2 ddimensiwn, gan gynnwys: • trionglau – anghyfochrog, isosgeles, hafalochrog, ongl sgwâr • pedrochrau – sgwâr, petryal, paralelogram, rhombws, barcud, trapesiwm • polygonau – gan gynnwys pentagon, hecsagon, octagon, rheolaidd ac afreolaidd • cylchoedd – radiws, diamedr, tangiad, cylchedd, cylchyn, cord, arc, sector, segment.	3.1.2 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 2 ddimensiwn, gan gynnwys: • trionglau – anghyfochrog, isosgeles, hafalochrog, ongl sgwâr • pedrochrau – sgwâr, petryal, paralelogram, rhombws, barcud, trapesiwm • polygonau – gan gynnwys pentagon, hecsagon, octagon, rheolaidd ac afreolaidd • cylchoedd – radiws, diamedr, tangiad, cylchedd, cylchyn, cord, arc, sector, segment.
	3.1.3 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 3 dimensiwn gan gynnwys ciwb, ciwboid, silindr, prism, pyramid, côn, sffêr, tetrahedron	3.1.3 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 3 dimensiwn gan gynnwys ciwb, ciwboid, silindr, prism, pyramid, côn, sffêr, tetrahedron	3.1.3 Geirfa a phriodweddau hanfodol siapiau 3 dimensiwn gan gynnwys ciwb, ciwboid, silindr, prism, pyramid, côn, sffêr, tetrahedron

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
3.2 Defnyddio offer mathemategol ar gyfer mesur a lluniadu'n fanwl gywir.	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	3.2.1 mesur a lluniadu'n fanwl gywir: • llinell syth • cylch neu arc cylch • ongl o unrhyw faint.		3.2.1 mesur a lluniadu'n fanwl gywir: • llinell syth • cylch neu arc cylch • ongl o unrhyw faint.
			3.2.2 defnyddio pren mesur ac onglydd i luniadu'n fanwl gywir: • hanerydd ongl • hanerydd llinell berpendicwlar • siapiau 2 ddimensiwn o wybodaeth a roddir am hyd ochrau ac, os yw'n briodol, yr onglau (bydd angen cwmpawdau i luniadu trionglau pan fydd tri hyd ochr yn hysbys) • locws pwynt sy'n symud fel ei fod yn bodloni amodau penodol, gan gynnwys: i. pellter penodol o bwynt neu linell sefydlog (bydd angen cwmpawdau) ii. cytbell o ddau bwynt neu ddwy linell sefydlog. 3.2.3 datrys problemau sy'n ymwneud â loci croestoriadol mewn dau ddimensiwn – bydd hyn yn cynnwys nodi rhanbarthau sy'n bodloni amodau penodol

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Adran geometreg a mesur	Ymhelaethiad		
	Uned 1	**Uned 2**	**Uned 3**
3.3 Mapiau, lluniadau wrth raddfa, cyfeiriannau a chynrychioliadau 2 ddimensiwn o siapiau 3 dimensiwn	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:		
	3.3.1 darllen a dehongli graddfeydd 3.3.2 defnyddio a dehongli mapiau 3.3.3 dehongli a chynhyrchu lluniadau wrth raddfa; gellir ysgrifennu graddfeydd yn y ffurf mae 1 cm yn cynrychioli 5 m, neu 1:500		3.3.1 darllen a dehongli graddfeydd 3.3.2 defnyddio a dehongli mapiau 3.3.3 dehongli a chynhyrchu lluniadau wrth raddfa; gellir ysgrifennu graddfeydd yn y ffurf mae 1 cm yn cynrychioli 5 m, neu 1:500
